

Ordinhad 14: Undeb y Myfyrwyr

Corff Cymeradwyo:	Y Cyngor
Dyddiad Cymeradwyo:	24 Ebrill, 2020
Perchennog y Polisi:	Ysgrifennydd y Brifysgol
Swyddog Polisi:	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
Statws y Polisi:	Newydd
Fersiwn:	1.0
Dyddiad adolygu:	Ebrill 2023

Ordinhad 14: Undeb y Myfyrwyr

1. Adwaenir Sefydliad Myfyrwyr Prifysgol Bangor fel Undeb y Myfyrwyr, fel y'i diffinnir yn y Siarter, Adran 17.
2. Bydd holl fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol yn gymwys i ddod yn aelodau cyffredin o Undeb y Myfyrwyr.
3. Mae'r berthynas rhwng Prifysgol Bangor ac Undeb y Myfyrwyr wedi'i nodi yn y Cytundeb Perthynas rhwng y ddau barti. Pwrpas y cytundeb yw nodi'n glir natur y berthynas rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a'r rhwymedigaethau a'r cyfrifoldebau sy'n codi.
4. Adolygir y Cytundeb Perthynas yn flynyddol gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr a Phwyllgor Gweithredu'r Brifysgol.